# DEDDF RHENTU CARTREFI (DIWYGIO) (CYMRU) 2021

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 2 – Cymal terfynu'r landlord o dan gontract safonol cyfnod penodol: y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir*

19. Mae'r adran hon yn diwygio'r cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir sy'n gymwys i gymal terfynu'r landlord o ddau fis i chwe mis, er mwyn bod yn gyson â'r cyfnod hysbysu ar gyfer contractau safonol cyfnodol o dan adran 174.

20. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod adran 195A newydd yn Neddf 2016. Mae'n darparu, ar gyfer contractau safonol cyfnod penodol penodedig, fod y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir sydd i'w bennu mewn hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord yn parhau i fod yn 2 fis. Rhestrir y contractau hyn yn yr Atodlen 8A newydd i Ddeddf 2016 (sy'n cael ei mewnosod gan Atodlen 1 i'r Ddeddf).